CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

483/51

**Y GYFRAITH - LW3**

**CYFUNDREFN GYFREITHIOL CYMRU A LLOEGR**

A.M. DYDD LLUN, 12 Mehefin 2006

(45 munud)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL:**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

- Mae'n rhaid i ymgeiswyr ateb y cwestiwn gorfodol hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

- Mae'r cwestiwn werth 25 marc.
- Atgoffir chi o'r angen am Gymraeg da ac am gyflwyniad clir yn eich ateb. Dylid ateb pob cwestiwn mewn rhyddiaith ddi-dor. Asesir ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig ym mhob ateb.

*Atebwch y cwestiwn canlynol.*

**1.** Darllenwch y deunydd canlynol ac atebwch y rhannau o'r cwestiwn hwn a seilir arno.

> "Mae'r dyddiau wedi hen fynd heibio pan fyddai'r llysoedd yn cymryd agwedd ddehongli llym a oedd yn gofyn iddynt gymryd ystyr llythrennol yr iaith. Mae'r llysoedd heddiw'n cymryd agwedd fwriadus *(purposive)* sy'n ceisio gweithredu gwir bwrpas y ddeddfwriaeth."

Ffynhonnell: Yr Arglwydd Griffiths yn *Pepper v Hart* (1993)

Astudiwch y testun ac atebwch y cwestiynau a seilir arno.

*(a)* Beth a olygir gan yr agwedd fwriadus y cyfeirir ati? [3]

**a**

*(b)* I ba raddau, os o gwbl, y mae darpariaethau Deddf Iawnderau Dynol 1998 yn dangos newid mwy pwysig na'r agwedd fwriadus yn y ffordd y mae barnwyr yn mynd at y dasg o ddehongli statudau? [8]

**a**

*(c)* Gan ddefnyddio'ch gwybodaeth o ddehongli statudau, ystyriwch a gyflawnwyd trosedd yn y sefyllfaoedd a amlinellir isod:

**Deddf (ffug) Petrol 2004**

*Adran 1:* Mae unrhyw gerbyd modur a ddefnyddir ar gyfer gyrru preifat ac sy'n defnyddio petrol ar gyfradd dros 25 milltir i'r galwyn *(mpg)* i'w ddosbarthu, at bwrpas y Ddeddf hon, fel 'potiwr petrol' *(gas guzzler)*.

*Adran 1 (2):* Rhaid ffitio tachograff i gerbyd o'r fath i wneud yn siŵr nad yw wedi'i ddefnyddio ar daith hir.

*Adran 2 (1):* Mae'n drosedd i yrru 'potiwr petrol' ar deithiau hir a'r gosb am hyn yw dirwy o £100.

*Adran 2 (2):* Taith hir yw un sy'n cynnwys mwyafrif o 200 milltir mewn 24 awr.

(i) Mae Gwawr wedi mewnforio cerbyd *sports utility* 4x4 o Unol Daleithiau America sydd ond yn gwneud 15*mpg* ond mae'n cyrraedd heb dachograff. Cyn i'r tachograff gael ei ffitio, mae Gwawr yn gyrru 500 milltir mewn 24 awr a phan gaiff ei stopio gan yr heddlu mae'n cyfaddef hynny. Mae hi'n cael ei chyhuddo o drosedd dan Adran 2. [7]

(ii) Mae gan Glyn hen fws sy'n gwneud 20*mpg* ond dim ond dwy neu dair gwaith y flwyddyn mae'n ei yrru i wyliau hen fysys. Fel arfer mae'n cymryd dau ddiwrnod i yrru i'r gwyliau ond pan dorrodd i lawr ar y ffordd i ŵyl, gyrrodd dros 200 milltir mewn un diwrnod er mwyn cyrraedd yr ŵyl mewn pryd. Yn anffodus, cafodd ei stopio gan yr heddlu wrth iddo fynd i mewn i faes yr ŵyl ac, ar ôl gwirio'r tachograff, cafodd ei gyhuddo o drosedd o dan Adran 2. [7]